

BRIFF AR GYFER GWERTHUSIAD CAM UN A CHAM DAU WELTAG

Cyffordd 34 ar yr M4 at Rwydwaith Drafnidiaeth yr A48

Cyflwyniad

1. Diben y Briff hwn yw llywio gwerthusiad Cam Un a Cham Dau WelTAG ar gyfer cyffordd 34 yr M4 at A48 (Five Mile Lane), yn cynnwys coridor Pendewlyn (neu un arall) er mwyn mynd at Faes Awyr Caerdydd. Dylai'r astudiaethau gynnwys hefyd opsiynau ar gyfer safle Parcio a Theithio yng Nghyffordd 34.
2. O werthusiad Cam Un, disgwylir y llunnir rhestr fer o brojectau trafndiaeth/priffordd sydd wedi eu hadnabod, yn ogystal â phosibiliadau er mwyn gostwng tagfeydd ar y ffordd. Yn ogystal, dylai'r posibiliadau gynnig mynediad gwell i Faes Awyr Caerdydd o'r M4 er mwyn datblygu ymhellach. Bydd Gwerthusiad Cam 2 yn ymchwilio'r posibiliadau a bennwyd yng Ngham Un ac yn dewis y cynnig gorau i fynd i Gam Tri (Achos Busnes Llawn).

Briff

3. Bydd y Gwerthusiadau yn cynnwys y tasgau y cyfeirir atynt yng Ngham Un: Achos Strategol Amlinellol a Cham Dau: Achos Busnes Amlinellol yn WelTAG 2017, ymgynghoriad drafft.
4. Dylai'r Achos Strategol fynd i'r afael â'r angen am newid. Dylai gyfleu disgrifiad ar sail tystiolaeth o'r sefyllfa bresennol, disgrifio'r sefyllfa debygol yn y dyfodol os na chymerir camau gweithredu a chyfleu'r rhesymau dros ymyrraeth.
5. Dylid gwneud adolygiad sylfaenol o'r holl waith blaenorol ar welliannau i'r cysylltiadau trafndiaeth yn y coridor hwn.
6. Dylid adolygu'r holl ddogfennau allweddol, yn cynnwys y Cynllun Cyllid Trafndiaeth Cenedlaethol, Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol Cynghrair Trafndiaeth De-ddwyrain Cymru, Cynllun Trafndiaeth Lleol Bro Morgannwg, Cynllun Datblygu Lleol y Fro sy'n Datblygu, Adroddiad ac Argymhellion Comisiwn Twf a Chystadleugarwch Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a strategaethau mudiant (e.e. strategaethau bws a phriffordd). Dylid dadansoddi'r holl ddata perthnasol er mwyn deall y sefyllfa, patrymau teithio a symudiadau presennol.
7. Bydd yr astudiaeth yn ystyried yr holl ymrwymadau yng Nghynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg sy'n datblygu a'r Cynllun Trafndiaeth Lleol a Fabwysiadwyd.
8. Bydd y gwaith a wneir yn cynnwys adnabod a mesur y problemau, cyfleoedd a'r cyfyngiadau yn yr ardal dan astudiaeth. Bydd y cam hwn hefyd yn nodi amcanion astudio (yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, Metro Caerdydd a Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd).
9. Dylid llunio rhestr hir o opsiynau, eu datblygu a'u mireinio yn rhestr fer o argymhellion ar gyfer Gwerthusiad Cam Dau. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar yr wybodaeth a gasglwyd yn yr adolygiad sylfaenol a'r dadansoddiad data. Dylai'r dewisiadau drafod y tagfeydd ar y ffordd, yn cynnwys yn y prif gyffyrdd ar hyd y coridor hwn a dylent gynnwys atebion aml-ddull teithio.

10. Dylid gwerthuso'r rhestr fer o opsiynau ac adrodd y canlyniad mewn Tabl Crynhoi'r Gwerthusiad.
11. Bydd gofyn i'r Ymgynghorydd gyflwyno i'r Cabinet Busnes y rhestr o opsiynau a bennwyd, y rhestr fer a grëwyd ohoni a'r rhesymau dros wneud yr argymhellion cyn cychwyn y gwaith yng Ngham Dau.
12. Pan fo hyn wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet Busnes, i'w symud ymlaen i Gam Dau, disgwylir y bydd Gwerthusiad Cam Dau yn cynnwys tystiolaeth y bydd yr ateb/ion a gynigir yn arwain at y canlyniadau a fynnir, yn mireinio cynllun y dewis ac yn nodi unrhyw amodau a chyfyngiadau. Bydd yn nodi sut y bydd yr ateb/ion a gynigir yn bwrw'r amcanion, yr effaith a ddisgwylir gan bob dewis a bydd yn ystyried cadernid y dewis/iadau er mwyn gallu bwrw'r amcanion gan ddefnyddio profi sensitifwydd a dadansoddi sefyllfaoedd, adnabod risgiau ac amodau. Disgwylir y bydd yr Adroddiad Achos Busnes Amlinellol yn cyflwyno'r dystiolaeth y bydd ei hangen er mwyn rhoi'r gallu i'r Cabinet Busnes ddewis yr opsiwn gorau er mwyn symud ymlaen i Gam Tri WeITAG. Bydd angen nodi'r dystiolaeth glir yn dangos yr effeithiau sylweddol ar grwpiau penodol o bobl neu ardaloedd, amodau a'r prif risgiau a allai effeithio ar fwrw'r amcanion bwriadol.
13. Ar ddiwedd proses Cam Dau, dylai'r camau gweithredu a fydd wedi eu cymryd gynnwys y canlynol:
- Pennu a oes unrhyw opsiynau a allai fynd i'r afael â'r problemau ac y gellir eu gweithredu;
 - Dewis yr opsiwn gorau i'w anfon ymlaen at y cam Achos Busnes Llawn gyda chymeradwyaeth gan Gabinet Busnes y Cyngor;
 - Cytuno ar y dulliau a ddefnyddir er mwyn cyflwyno tystiolaeth ychwanegol pan fo angen ar gyfer asesiad Cam Tri (Achos Busnes Llawn);
 - Adnabod unrhyw ofynion deddfwriaethol y mae angen eu hateb yn ystod asesiad Cam Tri (Achos Busnes Llawn); a
 - Dogfennu penderfyniadau Grŵp Adolygu Cam Dau (Cabinet Busnes y Cyngor) a sail y penderfyniadau hyn.
14. Bydd angen cyswllt rheolaidd rhwng yr Ymgynghorydd a'r Cleient. Mae disgwyl y bydd dau gyfarfod ar gyfer Cam Un a chyflwyniad gerbron y Cabinet Busnes fel a ganlyn:
- Cyfarfod cyntaf yn ystod wythnos **4 Gorffennaf 2017** (cytundeb astudio yn cynnwys sesiynau ymgynghori) a
Chyfarfod i gyflwyno astudiaeth Ddrafft ar neu cyn **11 Medi 2017**.
Cyflwyno i'r Cabinet Busnes ym **mis Hydref 2017 (Cytunir ar ddyddiad maes o law)**.
15. Bydd angen cyswllt rheolaidd rhwng yr Ymgynghorydd a'r Cleient ar gyfer Cam Dau hefyd. Mae disgwyl y bydd dau gyfarfod ar gyfer Cam Dau a chyflwyniad gerbron y Cabinet Busnes fel a ganlyn:
- Cyfarfod cyntaf yn ystod wythnos **16 Gorffennaf 2017** (cytundeb astudio yn cynnwys sesiynau ymgynghori) a
Chyfarfod i gyflwyno Astudiaeth Ddrafft ar neu cyn **22 Ionawr 2018**.
Cyflwyno i'r Cabinet Busnes ym **mis Chwefror 2018 (Cytunir ar ddyddiad maes o law)**.
16. Mae ymgynghori, cyfathrebu a chysylltu â rhanddeiliaid yn bwysig trwy werthusiad WeITAG a dylid cynnal o leiaf dau weithdy ar gyfer rhanddeiliaid ym mhob Cam. Bydd y rhain yn

helpu i ddeall y sefyllfa bresennol, gosod amcanion, llunio rhestr hir o atebion posibl a nodi prif bwyntiau yn cyfleu ystod effeithiau tebygol yr atebion hynny. Bydd hefyd yn helpu'r cyhoedd i ddeall a chefnogi'r opsiynau a gynigir yng Ngham Dau ac yn parhau i roi gwybod iddynt am yr atebion a argymhellir a'r opsiynau yr argymhellir eu dwyn ymlaen i Gam Tri (Achos Busnes Llawn). Gweinyddir y sesiynau ymgynghori gan y Cyngor yn cynnwys pennu amser a lleoliadau yn ogystal â rhestr y rhai sy'n bresennol. Ceisir cyngor gan yr ymgynghorydd ar restr y rhai sy'n bresennol ar gyfer pob sesiwn ond bydd y Cyngor yn rhoi rhestr sylfaenol o gyfranogion. Bydd angen i'r ymgynghorydd reoli dull y sesiynau hyn a bydd angen eu cynnal ar amseroedd y cytunir arnynt yn ystod y ddwy astudiaeth.

17. Cynnyrch y gwaith fydd adroddiadau Cam Un WeITAG a Cham Dau WeITAG. Dylai'r gwaith gynnwys Aseiad Effaith yn cynnwys yr wybodaeth fanwl sy'n atgyfnerthu gwybodaeth gryno prif ddogfennau'r Gwerthusiad.

18. Dylai'r Ymgynghorydd gynhyrchu dogfen Cychwyn Project erbyn **4 Gorffennaf 2017** yn nodi dull yr Ymgynghorydd o gwblhau'r holl dasgau sydd yn y Gwerthusiad.

Amserlen Cwblhau

19. Mae'n rhaid i'r Cyngor dderbyn drafft cyntaf Astudiaeth Cam Un WeITAG heb fod yn hwyrach na **11 Medi 2017** a derbyn drafft terfynol adroddiad Cam Un heb fod yn hwyrach na **1 Hydref 2017**.
20. Mae'n rhaid i'r Cyngor dderbyn drafft cyntaf Astudiaeth Cam Dau WeITAG heb fod yn hwyrach na **22 Ionawr 2018** a derbyn drafft terfynol adroddiad Cam Dau heb fod yn hwyrach na **22 Ionawr 2018**.

Cost

21. Uchafswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y Project hwn yw **£60,000** a dylai hyn gynnwys yr holl gostau ac eithrio llogi cyfleusterau cymunedol/gweinyddu'r sesiynau ymgynghori. Rhoddir 35% o'r ffi i'r Ymgynghorydd pan dderbynnir drafft Astudiaeth Cam Un a phan gyflwynir anfoneb i Gyngor Bro Morgannwg at sylw Clare Cameron. Telir 15% arall o'r ffi pan dderbynnir drafft terfynol Adroddiad Cam Un a 35% arall pan dderbynnir drafft cyntaf Adroddiad Cam Dau, yna telir y gweddill pan dderbynnir Adroddiad Cam Dau terfynol y cytunwyd arno. Dylid nodi mai Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r Astudiaeth.

Sail y Gwerthusiad

22. Mesurir y safon fel a ganlyn:

- A yw'r cynnig yn ateb Gofynion Manwl y dasg? 25/50
- A oes profiad sy'n berthnasol i'r dasg? 25/50
- Cyfanswm 50

23. Mae'r ymgeiswyr yn cydnabod nad oes rhaid i'r Cyngor dderbyn y dyfynbris isaf nac unrhyw un.

Costau

24. Yr ymgeisydd fydd yn talu'r holl gostau, taliadau a dyledion y mae'n mynd iddynt wrth baratoi a chyflwyno dyfynbris.

Cyfathrebu

25. Cyfrifoldeb y Cyngor yw pob mater sy'n gysylltiedig â chyfathrebu â'r wasg a thrydydd partïon ynghylch yr Astudiaeth ac ni ddylai'r Ymgynghorydd drafod y mater hwn â'r wasg na rhyddhau unrhyw ddeunydd sy'n berthnasol i Astudiaeth, yn cynnwys e-byst a.y.b. heb ganiatâd.

Noddwr y Project: Emma Reed, Pennaeth Gwasanaeth

Rheolwr y Project: Clare Cameron, Prif Swyddog Trafnidiaeth a Diogelwch ar y Ffyrdd (01446 704768)

Cyfarwyddiaeth Amgylchedd a Thai, Yr Alpau, Gwenfô. CF5 6AA